POLISI GOHIRIO

- Gallwch wneud cais i ohirio eich mynediad tan y flwyddyn academaidd/adeg derbyn nesaf drwy ysgrifennu at y Tîm Derbyn Myfyrwyr priodol. Os caiff eich cais ei gymeradwyo, fel arfer, cewch ganiatâd i ohirio unwaith yn unig, ar ôl hynny bydd hi'n ofynnol i chi gyflwyno cais newydd.

- Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Brifysgol a/neu'r corff cyllido perthnasol, gellir caniatáu gohirio cynnig o ysgoloriaeth ymchwil gan y Brifysgol tan y cyfnod cofrestru nesaf sydd ar gael. Fel arfer, ni fydd modd gohirio am fwy na thri mis calendr o'r dyddiad a nodir yn y cynnig gwreiddiol. Sylwer, dim ond un cais i ohirio gaiff ei ystyried ac nid oes gwarant y caiff ei gymeradwyo. Os gwrthodir eich cais i ohirio, bydd rhaid i chi gyflwyno cais arall, ac nid oes gwarant y bydd unrhyw gais yn y dyfodol am ddyfarniad yn llwyddiannus.

- Sylwer nad yw rhai rhaglenni'n caniatáu gohirio mynediad, er enghraifft, oherwydd cyfyngiad ar nifer y lleoedd sydd ar gael neu pan fu newid sylweddol i'r gofynion mynediad ers i chi gyflwyno eich cais gwreiddiol.

- Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eich bod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i ddyddiadau cau, megis talu blaendal, os byddwch yn cyflwyno cais i ohirio.

- Mae'n debygol y bydd gohirio eich cynnig yn arwain at gynnydd yn eich ffïoedd dysgu. Caiff ffïoedd dysgu eu hadolygu'n flynyddol ac maent yn tueddu i gynyddu bob blwyddyn. Os ydych yn cyflwyno cais am fynediad wedi'i ohirio o'r dechrau, mae'n bosib na fydd ffïoedd y flwyddyn ganlynol ar gael a bydd eich cynnig yn dyfynnu ffïoedd y flwyddyn bresennol fel canllaw.

- Os oes angen fisa arnoch i astudio, sylwer y bydd eich Cadarnhad Derbyn i Astudio (CAS) a'ch fisa'n gysylltiedig â dyddiad dechrau a rhaglen penodol. Os byddwch yn newid eich dyddiad dechrau, mae'n bosib y bydd angen i chi gyflwyno cais am CAS neu fisa newydd yn y flwyddyn pan hoffech chi astudio.

- Os yw eich cwrs yn gofyn am Dystysgrif Gymeradwyaeth gan y Cynllun ATAS (Cynllun Cymeradwyaeth Technoleg Academaidd), bydd angen i chi gael cymeradwyaeth ATAS newydd, oherwydd bydd angen i hyn fod yn ddilys ar yr adeg pan fyddwch yn cyflwyno cais am fisa ar gyfer eich dyddiad dechrau gohiriedig.

- Caiff eich statws ffïoedd ei asesu ar yr adeg pan fyddwch yn cyflwyno cais, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd gennych, ac mae'n ystyried dyddiad dechrau penodol. Os byddwch yn gohirio dyddiad dechrau eich rhaglen, sylwer y gallai hyn effeithio ar eich statws ffïoedd (sy'n pennu eich cymhwysedd i dalu ffïoedd dysgu is a mynediad at gymorth cyllid myfyriwr). Mae'r Swyddfa Derbyn Myfyrwyr yn cadw'r hawl i ailasesu eich statws yn sgîl eich dyddiad dechrau gohiriedig.

- Os nad Saesneg yw eich iaith gyntaf, efallai ein bod wedi gofyn i chi sefyll prawf iaith Saesneg. Sylwer bod y rhain yn ddilys am ddwy flynedd yn unig. Os nad yw eich prawf iaith Saesneg yn ddilys mwyach yn sgîl cais i ohirio, rydym yn cadw'r hawl i newid eich cynnig i gynnig amodol, a bydd rhaid i chi ddangos eich hyfedredd presennol drwy sefyll prawf newydd. Darllenwch ein tudalen Gofynion Iaith Saesneg

am ragor o wybodaeth.

- Os ydych chi eisoes wedi talu blaendal, fel arfer bydd y Brifysgol yn cadw'r blaendal ar gyfer eich cynnig gohiriedig ac ni fydd yn cael ei ad-dalu.

- Os ydych chi'n bwriadu ymgymryd â chwrs astudio arall yn ystod y cyfnod gohirio a chyn dyddiad dechrau gohiriedig eich cwrs yn Abertawe, rhaid i chi roi'r wybodaeth hon i ni adeg cyflwyno'r cais i ohirio. Bydd eich cynnig mynediad gohiriedig yn cynnwys amodau i gadarnhau eich bod wedi cwblhau'r cwrs hwnnw'n llwyddiannus a/neu wedi tynnu'n ôl ohono cyn i chi ddechrau eich cwrs yn Abertawe.

  Yn ogystal, rydym yn cadw'r hawl i atodi amodau i'ch cynnig gohiriedig sy'n gofyn i chi gyflawni lefel gyrhaeddiad benodol yn y cwrs ychwanegol. Os byddwch yn hepgor gwybodaeth mewn perthynas ag ymgymryd â chwrs mewn prifysgol arall yn ystod cyfnod gohirio, byddwn yn trin hwn fel hepgoriad perthnasol a gall arwain at dynnu'r cynnig gohiriedig yn ôl. Os oes angen fisa arnoch chi i astudio yn y DU, gall hyn hefyd effeithio ar eich cymhwysedd am y cynnig gohiriedig yn Abertawe, yn unol ag unrhyw reolau mewnfudo sydd mewn grym ar y pryd.

- Bydd ceisiadau i ohirio gradd ymchwil ôl-raddedig, e.e. MPhil/PhD yn dibynnu ar argaeledd goruchwylwyr addas a/neu argaeledd ysgoloriaethau ymchwil penodol, felly caiff y rhain eu hystyried fesul achos. Bydd y tîm Derbyn Myfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig yn eich cynghori.

- Drwy ohirio eich mynediad tan yr adeg derbyn nesaf sydd ar gael, rydych chi'n derbyn efallai y bydd angen i Brifysgol Abertawe amrywio gwasanaethau, cyfleusterau, disgrifiad, cynnwys, dull a/neu leoliad cyflwyno eich rhaglen a/neu ei hamserlen. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Brifysgol yn eich hysbysu am unrhyw amrywiadau perthnasol cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol a chewch gyfle i ganslo eich derbyniad (a'ch contract gyda'r Brifysgol) os ydych yn anfodlon ar y newidiadau i'r rhaglen.